**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**CYFARFOD ARBENNIG**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**13 Medi 2021**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Jason W Parry, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

**Swyddogion:**

Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Steve Collings a'r Cynghorydd Roy Owen.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**CYFARFOD ARBENNIG**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** | 13 Medi 2021 |

**PWNC:**

**EITEM 5: RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW – DEDDF LLWYODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982**

**PENDERFYNIAD**

**Y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor Llawn:**

- **Fabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021**

- **Cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym**

- **Dirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

O blaid: 11
Yn erbyn: 0
Atal: 0

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.